

## Credo / Creed

Tôn: Ffarwel i Blwy Llangower (tradd)

Rwy'n credu ac ymddiried yn Nuw y Tad, drwy ffydd,  
Creawdwr hollalluog a greodd bob peth sydd;  
Rwy'n credu ac ymddiried yn Iesu Grist, Mab Duw,  
Fu farw ar groes drosom ni a chodi nôl yn fyw.

Rwy'n credu ac ymddiried yn Nuw yr Ysbryd Glân  
Sy'n rhoi i ninnau fywyd a'n harwain ni ymlaen,  
Rwy'n credu ac ymddiried mai Tri yn Un yw Duw,  
I'r Tad, i'r Mab, i'r Ysbryd Glân rhof glod tra byddaf fyw.

*I believe in God the Father Almighty, holy Lord  
Most powerful creator of all things by his word,  
I believe and trust in Jesus, the Son of God, our friend,  
Who died upon the cross for us and rose to life again.*

*I believe in God the Spirit, who gives us life each day,  
The Lord who dwells within us and leads us in His way,  
In Father, Son and Spirit, the Holy Trinity,  
One God, the Three in One, my trust forever more will be.*